Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Nodyn o Ymweliad Ysgol

04 Rhagfyr 2023

**Yn bresennol:**

- Laura Jones AS
- Naomi Stocks, Clerc
- Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

Mae Ysgol Gyfun Trefynwy yn ysgol cyfrwng Saesneg 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Fynwy. Mae'n gwasanaethu tref Trefynwy ac ardaloedd gwledig Cross Ash, Llandogo, Rhaglan, Tryleg a Brynbuga, gyda thua 27% o fyfyrwyr yn teithio o Swydd Gaerloyw a Swydd Henffordd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf ac yn dod o gefndir gwyn, Prydeinig.

Mae Ysgol Gyfun Trefynwy yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol gynhwysol (SRB) a gaiff ei goruchwylio gan Awdurdod Lleol Sir Fynwy.  Mae Canolfan Adnoddau Arbenigol yn galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Yn gyffredinol, caiff disgyblion mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol gan elwa ar gwricwlwm arbenigol. Maent hefyd yn gallu manteisio ar yr ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

## 1. Trafodaethau â'r Pennaeth, arweinwyr y Ganolfan

**1.** Rhoddodd y pennaeth drosolwg o'r Ganolfan. Mae wedi'i lleoli yng nghanol yr ysgol, mae hyn yn adlewyrchu ymdeimlad athronyddol o gynhwysiant sydd wrth wraidd y Ganolfan. Mae integreiddio wedi'i yrru gan dîm arwain y Ganolfan.

**2.** Mae adeilad yr ysgol yn bum mlwydd oed ac eisoes nid oes digon o le yn y Ganolfan. Pan luniwyd y cynlluniau cychwynnol ar gyfer yr ysgol, nid oedd y ganolfan yn rhan o'r cynllun. Pan gytunwyd i'r ysgol fod yn gartref i'r Ganolfan nid oedd dewis ond ei rhoi yn y gofod a oedd ar gael. Nid yw'n ddelfrydol ond maen nhw'n gwneud iddi weithio gyda'r defnydd o ardaloedd eraill yn yr ysgol brif ffrwd.

## Cynwysoldeb

**3.** Mae'r Ganolfan yn gynhwysol ac mae tegwch o ran cynnig gweithgareddau i bob plentyn yn yr ysgol a gaiff ei ariannu o gyllideb yr ysgol. Mae uwch dîm rheoli'r ysgol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau yn cael eu cynnig i blant yn y Ganolfan. Ni fydd taith yn cael ei chynnig oni bai bod cludiant hygyrch yn cael ei sicrhau. Mae costau staff ychwanegol hefyd yn chwarae rhan ond mae lefel o ewyllys da gan y staff sy'n gwirfoddoli i gefnogi, yn arbennig ar deithiau dros nos.

**4.** Mae ymgysylltu â theuluoedd yn bwysig iawn - caiff staff y Ganolfan alwadau ffôn rheolaidd, maent yn ymateb i e-bost yn gyflym ac mae ganddynt lefel gyfathrebu barhaus. Mae'n bwysig deall beth yw anghenion y teulu a chael gwybodaeth am y teulu, ynghyd â gwerthfawrogiad o wybodaeth a dealltwriaeth y teulu o'r plentyn. Mae angen i deuluoedd deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer eu plentyn.

**5.** Mae cymhlethdod anghenion yn y brif ffrwd wedi cynyddu dros y blynyddoedd, yn enwedig o ran effaith y pandemig. Yn Sir Fynwy nid oes dim ysgolion arbennig felly mae plant ag anghenion cymhleth iawn yn mynd i' Ganolfan Adnoddau Arbenigol. Ystyrir bod hyn yn gadarnhaol gan y gall plant fynd i'r ysgol brif ffrwd gyda'u cyfoedion, ond cânt y cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt. Ond mae hyn yn rhoi pwysau ar anghenion hyfforddi a chyllideb yr ysgol.

**6.** Mae rhai plant y brif ffrwd yn cael trafferth mynd i'r ysgol oherwydd materion fel pryder. Caiff rhai eu cefnogi gan ddarpariaeth bwrpasol addysg heblaw yn yr ysgol, ond i eraill mae'r ysgol yn ceisio eu cael allan o'r tŷ drwy ddatblygu pecynnau cymorth addas drwy ddysgu yn yr ysgol o fewn grwpiau llai, a lleoliadau profiad gwaith, ond mae hyn eto yn cael effaith ar gyllidebau.

## Hyfforddiant staff ADY

**7.** Mae athrawon sy'n gweithio yn uned y Ganolfan Adnoddau Arbenigol wedi arbenigo mewn gwahanol feysydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae llawer o hyfforddiant y mae angen

i staff fod wedi'i gwblhau a phrofiad i elwa ohono i allu gweithio yno. Mae nifer o lwybrau ar gyfer cymwysterau ar gyfer staff addysgu. Mae rhai llwybrau yn rhoi dealltwriaeth gychwynnol o ADY, a chefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, ond gellir ategu hyn gyda hyfforddiant ychwanegol, sy'n cefnogi datblygiad arbenigaeth a gwybodaeth arbenigol.

**8.** Mae lefel yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir yn dibynnu ar ysgolion unigol a staffio. Mae'r ysgol yn ffodus gan fod ganddi'r strwythur a'r arbenigedd i ddarparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ond nid yw'n systematig ar draws addysg.

**9.** Mae'n ddefnyddiol i bob athro gael hyfforddiant ar gyfer lefelau is o ADY yn enwedig gyda'r Ddeddf ADY newydd. Ni all athrawon gael arbenigedd ym mhopeth, ond mae rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol sy'n eu helpu i ddeall y ffordd orau o ddiwallu anghenion ADY yn yr ystafell ddosbarth yn bwysig.

# 2. Trafodaethau â staff addysgu

**10.** Amlinellodd y staff addysgu strwythur y Ganolfan. Mae dau ddosbarth o blant gydag anghenion cymhleth ac oedrannau cymysg. Mae'r plant hyn yn debygol o aros yn y Ganolfan, gyda chyfleoedd i gael eu cynnwys o ran mynediad at feysydd arbenigol yn hytrach na chael mynediad at ddysgu yn yr ysgol yn ehangach. Mae yna ddosbarth Blwyddyn 7 sydd ag un athro. Yna mae Blwyddyn 8 ymlaen yn symud rhwng pedwar athro. Caiff y dosbarthiadau eu harwain gan anghenion, ac maent yn hyblyg i allu addasu i'r anghenion . Mae'r plant yn dilyn amserlen yr ysgol, gallant ddefnyddio'r ffreutur ac ymuno â gweithgareddau e.e. nofio, coginio a chynyrchiadau'r ysgol.

**11.** Mae'r ysgol wrthi'n datblygu cwricwlwm i'r Ganolfan ar gyfer y rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth. Byddai hyn yn fwy cydnaws â'r cwricwla a welir mewn ysgolion arbennig.

**12.** Dywedodd rhai staff eu bod yn teimlo bod Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn fwy cynhwysol nag ysgolion arbennig. Drwy gael plant ag anghenion dysgu mewn ysgol brif ffrwd, maent yn addysgu'r ysgol gyfan ac, o ran y plant ag anghenion maent yn dod i arfer â byd swnllyd ac anrhagweladwy tra maent mewn amgylchedd diogel. Mae Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn rhan o'r gymuned ehangach, er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnig pecynnau profiad gwaith ôl-16, sydd yn ei dro wedi addysgu'r gymuned o ran anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau.

**13.** Dylai fod lefel o hyfforddiant ADY ar gyfer pob athro, yn enwedig ar lefel Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Mae'n bwysig deall ei fod yn ymwneud ag edrych ar blant fel unigolion a'u hanghenion unigol.

**14.** Mae'n bwysig dysgu sgiliau i blant a phobl ifanc sy’n galluogi iddynt ddatblygu o ran eu hannibyniaeth - nid yw bob amser yn fuddiol cael Cynorthwyydd Addysgu gyda phlentyn drwy'r amser. Mae cynhwysedd mewn lleoliad prif ffrwd yn helpu i ddysgu'r sgiliau hyn

**15.** Yr hyn fyddai'n fuddiol yw mewnbwn gan glinigwyr a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'r gallu i gael gafael ar ymyriadau therapiwtig yn rheolaidd. Mae angen cydlynu mwy cydgysylltiedig rhwng addysg ac iechyd. Hoffai'r ysgol gynnig ymyriadau mwy therapiwtig fel therapi cerdd, a therapi galwedigaethol. Nid yw wedi gallu sicrhau cefnogaeth therapi galwedigaethol gan y bwrdd iechyd lleol, felly mae wedi gorfod talu am therapydd galwedigaethol annibynnol i ddod i'r ysgol. Anaml y mae atgyfeiriadau yn diwallu meini prawf y Bwrdd Iechyd er gwaethaf lefel cymhlethdod yr angen.

**16.** Caiff y gyllideb ei dyrannu yn yr ysgol sy'n caniatáu hyblygrwydd i helpu i ddatblygu strategaethau ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol i ymdopi yn yr ysgol brif ffrwd e.e. mae ganddynt grwpiau llai ar gyfer Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth.

**17.** O ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mae sawl aelod o'r Ganolfan sy'n gallu siarad Cymraeg a gallant gael cymorth gan siaradwyr Cymraeg eraill yn yr ysgol. Mae hyn yn uchel ar agenda'r ysgol ac mae adolygiad ehangach yn Sir Fynwy yn edrych ar hyn.

**18.** Byddai'r ganolfan yn elwa o fwy o le awyr agored diogel drwy gydol y flwyddyn, ni chafodd hyn ei ystyried yn y dyluniad gwreiddiol.

**19.** Mae angen rhagor o adnoddau ar y Ganolfan ar gyfer yr ystafelloedd dosbarth. Er bod y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn wych, mae terfyn ar yr hyn y gallant ei ddarparu. Gallant hefyd helpu i gael gafael ar grantiau gwahanol. Fodd bynnag, byddai rhagor o adnoddau yn wych.

**20.** Mae rhannu arfer da ar draws y clwstwr yn effeithiol iawn, ac mae proses sicrhau ansawdd sy’n caniatáu ar gyfer hunan-werthuso â chefnogaeth.  Mae bellach lai o rannu arfer da ar draws y rhanbarth ers y pandemig. Mae Cyngor Sir Fynwy ers hynny wedi penodi ymarferydd i Arwain ar Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol i helpu i rannu a lledaenu arfer da ledled y clystyrau, ac yn ehangach.

# 3. Trafodaeth â disgyblion - beth rydych chi'n ei hoffi am yr ysgol?

**21.** Dywedodd yr holl ddisgyblion a oedd yn hoffi'r ysgol; eu bod yn mwynhau mynd i'r ffreutur a bod y bwyd yn dda. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt mai eu hoff bwnc oedd Addysg Gorfforol a'u bod hefyd yn mwynhau gwneud arbrofion mewn gwyddoniaeth.

**22.** Dywedon nhw eu bod wedi mwynhau mynd ar deithiau ysgol e.e. maen nhw wedi bod i'r sinema, maen nhw wedi bod i'r dref ac wedi codi arian i elusen ac wedi bod i'r parc i fwydo'r hwyaid.

**23.** Dywedon nhw hefyd eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol fel pêl-droed a chynyrchiadau cerddorol yr ysgol.

**24.** Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael tacsi i'r ysgol ac mae rhai yn defnyddio'r bws.

# 4. Trafodaethau â rhieni

## Pontio

**25.** Roedd pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn hwylus. Edrychodd rhieni ar wahanol opsiynau ond roeddent yn hoffi'r ysgol oherwydd bod y ganolfan yn darparu'r cymorth arbenigol ond gyda mynediad at ddarpariaeth prif ffrwd. Roedd y broses bontio yn brofiad cadarnhaol iawn ac roeddent yn teimlo bod y plant yn cael eu meithrin a'u cefnogi'n llawn trwy gydol y cyfnod pontio.

**26.** Mae gwasanaeth seicoleg blynyddoedd cynnar Trefynwy yn dda iawn am ganfod plant ag ADY mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a rheoli eu cyfnod pontio i'r ysgol gynradd. Nid yw hyn yn digwydd ym mhobman ac weithiau yr unig berson sy'n gwybod beth sy'n digwydd yw'r rhiant. Gall hyn arwain at anawsterau o ran cael cymorth ar waith cyn pontio i'r ysgol gynradd gall fod yn anodd iawn.

**27.** Roedd rhai rhieni yn teimlo bod y trafferthion yn yr ysgolion cynradd. Roedd teimlad nad oedd gan yr athrawon ddealltwriaeth o anghenion y plentyn neu ddim digon o ddealltwriaeth o blant ag ADY. Weithiau roedd rhieni yn cael eu gwneud i deimlo eu bod yn faich ac yn heriol.

**28.** Cafwyd profiadau cadarnhaol iawn o'r ganolfan a phrif ffrwd o Flwyddyn 7 hyd at y chweched dosbarth. Roedd problemau yn cael eu hwynebu wrth bontio y tu allan i'r ysgol,

roedd rhieni'n teimlo nad oedd neb yn gwrando ar eu plentyn ac nad oedd neb yn gwrando’n ddigonol ar yr ysgol chwaith. Teimlai’r rhieni bod yr opsiynau ôl-16 ehangach yn fwy anghyson.

**29.** Mae'r ysgol yn cynnig cyfle i blant ennill cymwysterau nad yw bob amser yn wir mewn ysgolion arbennig. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael y cydbwysedd cywir o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud. Dylid canolbwyntio ar ddysgu sgiliau bywyd – cyfathrebu, datrys problemau ac ati. Gall fod disgwyliad gwahanol o beth yw sgil bywyd a gall disgwyliadau o'r plant fod yn isel ac weithiau'n nawddoglyd.

**30.** Mae integreiddio llawn mor bwysig yn yr ysgol. Mae hyn yn bwysig i bob disgybl yn yr ysgol.

## Gweithgareddau allgyrsiol

**31.** Dywedodd rhai o'r rhieni bod eu plant wedi bod ar deithiau ysgol a bod un wedi mynd dramor ar daith chwaraeon. Digwyddod hyn pan oedd y ganolfan yn llai, felly roedd yn haws darparu ar ei gyfer. Mae anghenion rhai o'r plant yn y ganolfan wedi dod yn fwy cymhleth felly mae bellach yn fwy anodd cynnig teithiau, yn enwedig dramor.

## Cludiant

**32.** Dywedodd un rhiant eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i gludiant ysgol am ddim i ddod i'r ysgol. (Roedd yn teithio o Loegr)

**33.** Yn gyffredinol, nid yw cludiant yn broblem, mae'r rhan fwyaf o blant yn dod i'r ysgol ar fws yr ysgol neu mewn tacsi. Cafwyd rhai achosion o fwlio ar y bws ond ymdriniwyd â hyn.

## Gweithredu system ADY newydd

**34.** Yn gyffredinol, cafodd rhieni brofiadau negyddol iawn o'r system newydd, dywedodd un rhiant yr hoffai losgi’r Ddeddf ADY newydd. Mae'n loteri cod post ac yn aml i fyny i'r rhieni i geisio llywio'r system. Dylai fod mwy o gyswllt â rhieni yn enwedig mewn ysgolion cynradd i helpu i'w harwain drwy'r system.

**35.** Mae gwahanol awdurdodau lleol yn dehongli'r Ddeddf yn wahanol, mae hyn hyd yn oed anghysonderau rhwng ysgolion o fewn yr un awdurdod lleol. Nid oes cysondeb o ran ysgrifennu CDU, os ydynt yn amwys o ran yr hyn a gynhwysir, yna mae lai o bethau y mae angen i’r ysgol fod yn atebol amdanynt. Mae rhai plant ag anghenion dysgu cymhleth nad oes ganddynt CDU hyd yn oed.

**36.** Mae gwaith papur CDU yn teimlo fel 'torri a gludo' - dyw llawer o athrawon yn enwedig mewn ysgolion prif ffrwd ddim hyd yn oed yn eu darllen. Nid ydynt yn cael eu defnyddio fel y dylen nhw fod.

**37.** Ychydig iawn o gymorth 1-i-1 sydd ar gael i blant, os o gwbl, yn enwedig yn ystod oedran derbyn. Hyd yn oed os oes cymorth 1-i-1 yn ei le, maent yn aml yn orlawn ac yn cael cais i ofalu am blant eraill ag ADY. Yn aml, ychydig o hyfforddiant a gaiff athrawon mewn ADY, os o gwbl, a chaiff y gwaith o ddarparu'r gefnogaeth ac o addysgu'r plant ei adael i gynorthwywyr addysgu. Mae athrawon weithiau'n meddwl mai cyfrifoldeb y cynorthwywyr addysgu yn y dosbarth yw plant ag ADY. Nid yw hyn yn wir a dylai fod yn gyfrifoldeb ar yr athro i addysgu'r dosbarth cyfan. Mae hyn yn cynnwys deall a chynllunio ar gyfer pob plentyn yn y dosbarth hwnnw, nid dim ond y rhai sy'n niwronodweddiadol.

**38.** Dylai hyfforddiant mewn ADY fod yn rhan orfodol o hyfforddiant athrawon

## Cymorth a gwybodaeth

**39.** Gall fod yn eithaf anodd cael gafael ar wybodaeth. Mae gwasanaeth o'r enw gwasanaeth ymyrraeth blynyddoedd cynnar 'Portage' sy'n wych ond mae wedi mynd yn dameidiog iawn ac nid yw ar gael mewn sawl ardal bellach. Byddent yn dod allan at rieni newydd gan roi gwybodaeth a chyfeirio at gefnogaeth a chymorth.

**40.** Roedd gan un rhiant ymwelydd iechyd anghenion arbennig a oedd yn anhygoel gan eu bod yn gwybod beth ddylai eu plentyn fod yn ei gyflawni ac roedd yn gallu eu cefnogi ar eu taith ond nid yw'r gwasanaeth hwn yn bodoli mwyach.

**41.** Mae'r Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth wrthi’n llunio rhaglen a gaiff ei chyflwyno yn 2024 a fydd yn helpu i greu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn y gall rhieni gael gafael arno, ond mae'n sicrhau bod y rhaglen yn cael ei gweithredu gan ysgolion.

**42.** Mae awdurdodau lleol yn ariannu rhaglenni, prosiectau a secondiadau ond caiff data a gwybodaeth eu casglu, nad ydynt fyth yn cyrraedd unrhyw le neu waith dilynol wedi’i wneud arnynt.

**43.** Mae angen cydgysylltu gwell rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg, ar hyn o bryd mae'r ffiniau’n aneglur iawn - mewn rhai achosion mae'n rhaid i rieni dalu am wasanaethau arbenigol e.e. Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi ac mae’n aml yn anodd canfod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ag arbenigedd mewn meysydd penodol fel anhwylder prosesu synhwyraidd